



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Lleihau allyriadau yn sgil llosgi tanwydd solet i ddibenion domestig

Cynigion i sicrhau na ddefnyddir ond y mathau glanaf
o danwydd solet ac offer yng Nghymru.

Dyddiad cyhoeddi: 13 Ionawr 2021
Camau i'w cymryd: Ymateb erbyn 7 Ebrill 2021

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad deuddeg wythnos hwn yn ceisio barn ar gynigion Llywodraeth Cymru i reoleiddio llosgi domestig yn rhan o'r Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach. Bydd y camau a gynigir yn y ddogfen hon yn lleihau llygredd aer ac o gymorth i wella iechyd cyhoeddus a'n hamgylchedd naturiol.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ateb y cwestiynau ar y ffurflen sydd ar gael yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill ar gais.

This document is also available in English / Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Dylech gynnwys unrhyw gyfeiriadau at y rhyngwyd, dogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i ymgynghoreion, ee, cyfeiriad gwe yr ymgynghoriad, atodiad manwl i'r ymgynghoriad.

Manylion Cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Cyfeiriad:

Tîm Polisi Ansawdd Aer
Is-adran yr Amgylchedd a Chymunedau
Llywodraeth Cymru
3^{ydd} Llawr
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: PolisiAnsawddAer@Llyw.Cymru

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau deallus ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ni chaiff y gwaith hwnnw ond ei gyflawni o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cynnwys

Rhagair	5
Cyflwyniad	6
Cynllun Aer Glân i Gymru.....	7
Cyfathrebu a newid ymddygiad	8
Pa gamau sy'n cael eu cymryd mewn manau eraill?.....	8
Beth ydym ni eisiau ei wneud ynghylch llosgi tanwyddau solet i ddibenion domestig?	9
Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru).....	10
Bil Amgylchedd y DU.....	10
Tanwyddau solet domestig.....	11
Camau arfaethedig i ymdrin ag allyriadau yn sgil llosgi tanwyddau solet i ddibenion domestig	12
Dirwyn gwerthiant glo meddal/tŷ traddodiadol i ben ar gyfer llosgi domestig	13
Gwahardd gwerthu coed gwlyb i'w llosgi i ddibenion domestig	15
Cymhwyso safonau i danwyddau solet mwynol a weithgynhyrchir.....	18
Tanwyddau solet bio-màs a weithgynhyrchir.....	20
Offer	21
Cymorth i aelwydydd newid i ffynonellau gwresogi amgen	22
Opsiw 1 - Cynllun Sgrapio Gwirfoddol	22
Opsiw 2 - Ei gwneud hi'n orfodol tynnu offer nad ydynt yn cydymffurfio/gosod offer newydd yn eu lle	23
Opsiw 3 - Cyfuniad o'r Cynllun Sgrapio Gwirfoddol ac Ehangu SCAs	23
Ardaloedd Rheoli Mwg	25
Hylosgi yn yr awyr agored	25
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad.....	26

Rhagair

Cyhoeddwyd ein Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach ym mis Awst 2020. Roedd yn nodi ein hymrwymiad a'n huchelgais hirdymor i wella ansawdd yr aer, a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hynny.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi mwy o fanylion am y cynigion a nodwyd yn y Cynllun Aer Glân ynghylch mesurau i leihau allyriadau yn sgil llosgi tanwyddau solet i ddibenion domestig.

Rwy'n cydnabod bod aelwydydd wedi dewis gosod stofiau llosgi coed, ac nid wyf yn anelu i atal defnyddio neu osod y stofiau hynny. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddefnyddwyr ar hyn o bryd yn ymwybodol o effaith bosibl llosgi tanwyddau solet ar ansawdd yr aer o'u hamgylch, effaith hynny ar eu iechyd a'r pryderon ehangach ynghylch y newid hinsawdd. Rydym felly'n canolbwyntio ar gamau i sicrhau bod pobl yn newid i ddulliau llosgi ac offer glanach, gan eu hamddiffyn ar yr un pryd rhag tloedi tanwydd. Bydd hyn o fudd uniongyrchol i ddefnyddwyr yn eu cartrefi ac yn gwella ein hamgylchedd lleol.

Bydd cynigion yn yr ymgynghoriad hwn hefyd o gymorth i gyrraedd ein targedau ar gyfer y newid hinsawdd. Byddant yn rhan o gasgliad o gamau y mae angen eu cymryd o dan ein Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf. Disgwylir i'r cynllun hwnnw gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021.

Credaf ei bod hi'n hanfodol addysgu defnyddwyr. Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut rydym yn bwriadu codi ymwybyddiaeth ynghylch y materion iechyd sy'n gysylltiedig â llosgi domestig, ac yn gofyn am eich barn ynghylch hynny. Rwyf am i bobl symud i ffwrdd oddi wrth losgi tanwyddau solet ar unrhyw ffurf er mwyn amddiffyn ansawdd yr aer a gostwng allyriadau carbon. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn annog defnyddio'r tanwydd sy'n creu cyn lleied ag sy'n bosibl o lygredd yn yr offer mwyaf effeithlon.

Mae'n rhaid i bob un ohonom gydweithio i leihau effaith llosgi domestig ar ansawdd yr aer er mwyn amddiffyn ein hamgylchedd lleol ac iechyd ein teuluoedd a'n cymunedau. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich barn ar yr ymgynghoriad hwn.

Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gynigion a nodwyd yn y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach¹ ynghylch allyriadau yn sgil defnyddio tanwydd solet i ddibenion domestig. Mae'n amlinellu camau pellach y gellir eu cymryd i annog aelwydydd i newid i danwyddau ac offer glanach.

Llygredd aer yw'r bygythiad amgylcheddol mwyaf i iechyd². Bydd aer glanach yn sicrhau iechyd a llesiant gwell i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rydym wedi ymrwmo i flaenoriaethu a chymryd camau parhaus i ymdrin ag effaith ansawdd aer gwael ar iechyd pobl (yn enwedig grwpiau o'r boblogaeth sy'n fregus neu'n agored i niwed) ac ecosystemau drwy leihau'r cysylltiad â llygredd ar raddfa ehangach. Bydd cynigion yn yr ymgynghoriad hwn hefyd o gymorth i gyrraedd ein targedau ar gyfer y newid hinsawdd. Byddant yn rhan o gasgliad o gamau y mae angen eu cymryd o dan ein Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf. Disgwylir i'r cynllun hwnnw gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021.

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi tarfu i raddau sylweddol ar ein ffordd o fyw yng Nghymru ac ar draws y byd. Yn sgil newidiadau digynsail i batrymau bywyd a gwaith yn ystod y pandemig ceir darlun amrywiol o lygredd aer yng Nghymru ar hyn o bryd, a gallai hynny barhau i'r dyfodol. Er enghraifft, newidiodd allyriadau trafndiaeth ffyrdd oherwydd cyfyngiadau ar deithio. Yn ogystal â hynny, mae'r cynnydd yn y nifer sy'n gweithio gartref ac effeithiau'r cynllun ffyrlo wedi newid y manau lle bydd pobl yn dod i gysylltiad â llygredd.

Mae allyriadau'r sector preswyl wedi cynyddu'n sylweddol ers 2002 er iddynt ostwng yn y blynyddoedd cynt wrth i'r defnydd o lo hefyd ostwng. Dywedir bellach fod allyriadau wedi dychwelyd yn fras i'r un lefelau ag a welwyd ym 1990.

Mae cynnydd yn y nifer sy'n gosod ac yn defnyddio stofiau llosgi coed neu stofiau aml-danwydd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, wedi cyd-daro a chynnydd mewn allyriadau deunydd gronynnol (DG). Mae'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (NAEI) yn priodoli'r cynnydd, yn rhannol, i gynnydd yn y defnydd o goed fel tanwydd ar gyfer cartrefi. Ceir cryn ansicrwydd ynghylch union gyfraniad yr elfen hon, er bod NAEI yn nodi mai llosgi tanwyddau solet i ddibenion domestig yw'r ffynhonnell unigol sy'n cyfrannu fwyaf at lefelau deunydd gronynnol mân (DG_{2.5}), gan gynhyrchu cymaint â thrafnidiaeth a diwydiant gyda'i gilydd³. Mewn astudiaeth ar gyfer HETAS a Chynghrair y Diwydiant Stofiau (SIA) nodwyd problemau'n gysylltiedig â'r fethodoleg a'r offer mesur a ddefnyddiwyd i ffurfio casgliadau'r NAEI. Serch hynny, cydnabyddir hefyd ein bod yn annhebygol o gyrraedd targedau NECD⁴ i leihau DG_{2.5} erbyn 2030 os nad ydym yn cymryd camau wedi'u targedu i ymdrin â llygredd a achosir gan losgi domestig⁵.

Gall DG a'r nwyon sy'n ei ffurfio deithio dros bellteroedd sylweddol, gan effeithio ar ardaloedd sydd ymhell o'r ffynhonnell wreiddiol. Mae crynodiadau o DG o bryder neilltuol oherwydd y cysylltiadau sydd wedi'u sefydlu rhyngddynt ag effeithiau iechyd. Gall deunydd gronynnol mân (DG_{2.5}) deithio'n

¹ Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach -<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/cynllun-aer-glan-gymru-awyr-iach-cymru-iach.pdf>

² Ten Threats to Global Health in 2019, WHO 2019. www.who.int/emergencies/ten-threats-to-global-health-in-2019

³ <https://naei.beis.gov.uk/>

⁴ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/HTML/?uri=CELEX:32016L2284&from=EN>

⁵ <https://www.hetas.co.uk/scientific-review-casts-doubt-on-impact-of-domestic-burning/a-review-of-the-impact-of-domestic-combustion-on-uk-air-quality-1/>

ddwfn i'r ysgyfaint ac achosi amrywiaeth o salwch, gan gynnwys clefydau anadlol a chardiofasgwlaidd⁶. Er bod gennym drothwyon cyfreithiol Ewropeaidd a domestig ar gyfer DG_{2.5},⁷ nid oes unrhyw drothwy wedi'i nodi a fyddai'n sicrhau na cheid unrhyw effeithiau andwyol ar iechyd.

Mae llosgi domestig hefyd wedi'i gysylltu ag allyriadau Gronynnau Bras (DG₁₀), Carbon Monocsid (CO), Sylffwr Deuocsid (SO₂), Cyfansoddion Organig Anweddol (VOC), Benzo(a)Pyrene (BaP) a deuocsinau.

Mewn nifer fach o gartrefi, tanwydd solet yw'r ffynhonnell wresogi bennaf a mwyaf cost-effeithiol. I'r mwyafrif o ddefnyddwyr stofiau, mae'r stof yn ychwanegu at ffurfiau gwresogi sy'n bodoli eisoes, fel olew, nwy a thrydan. Mae Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18⁸ yn awgrymu bod cyfran yr anheddau sy'n defnyddio tanwydd solet fel eu prif ffynhonnell wresogi wedi gostwng o 3% yn 2008 i 1% yn 2017-18. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig amcangyfrifir bod cyfran uwch o aelwydydd yn dibynnu ar danwyddau solet (4%) o gymharu â Chymru gyfan. Gan hynny, mae'n rhaid inni gofio sicrhau bod unrhyw gynigion a gyflwynir i ymdrin ag anghenion y rhai mewn cymunedau a lleoliadau gwledig, ac yn enwedig y rhai sy'n profi tlodi tanwydd sy'n dibynnu ar danwyddau solet fel ffynhonnell o wres dros gyfran sylweddol o'r flwyddyn.

Mae polisïau ar losgi domestig, a gostyngiad cyffredinol mewn DG_{2.5} ledled Cymru, yn rhan annatod o'n Cynllun Aer Glân ar gyfer Cymru. Fe'u pwysleisir ymhellach drwy ymrwymiad cyfreithiol i gyrraedd targedau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol y DU⁹.

[Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach](#)

Mae'r camau o'r Cynllun Aer Glân yr ymdrinnir â hwy yn yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys y canlynol yn gysylltiedig â llosgi domestig:

- Byddwn yn ystyried a ddylid gosod rheoliadau ar gyfer offer llosgi tanwydd solet awyr agored a'r tanwyddau a ddefnyddir ar eu cyfer. Byddwn yn datblygu rheoliadau angenrheidiol yn ystod 2021.
- Byddwn yn gwahardd gwerthu coed gwlyb a glo tŷ traddodiadol/glo meddal, yn amodol ar ymgynghoriad. Ein nod yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol yn 2021, a chychwyn gwahardd yn ystod 2023.
- Byddwn yn gosod rheoliadau i sicrhau mai'r offer mwyaf effeithlon yn unig sydd ar gael i'w prynu a'u gosod erbyn 2022. Bydd y rheoliad yn cynnwys gosod offer ail-law.
- Byddwn yn gosod rheoliadau i'w gwneud hi'n ofynnol trefnu i weithiwr proffesiynol ardystiedig gynnal a chadw offer llosgi domestig yn flynyddol, yn amodol ar adolygiad. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal erbyn 2023.

⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/comeap-cardiovascular-disease-and-air-pollution>

⁷ Terfynau'r WHO (Canllawiau AQR) yw 10 microgram (blynyddol). Lefelau cyfredol y DU yw 10.37 microgram.

⁸ <https://llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru>

⁹ Mae cydymffurfio â therfynau uchaf ar gyfer allyriadau cenedlaethol yn cyfrannu at gynydd rhyngwladol i leihau llygredd aer trawsffiniol, gan greu manteision i'r naill ochr a'r llall yn sgil lleihau allyriadau y tu allan i Gymru, gan gynnwys gweddill y DU.

- Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a chyda llywodraethau eraill i sefydlu safonau profi ar gyfer tanwyddau solet newydd a weithgynhyrchir sy'n dod i mewn i'r farchnad erbyn 2024, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau priodol ynghylch allyriadau mwg a sylffwr.
- Byddwn yn ymchwilio i opsiynau i gefnogi aelwydydd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un yn llithro i dlodi tanwydd, nac yn parhau i brofi tlodi tanwydd o ganlyniad i unrhyw waharddiad ar danwyddau neu offer, neu estyn y defnydd o ardaloedd rheoli mwg. Ein nod yw rhoi cynllun ar waith erbyn 2022.
- Byddwn yn gosod rheoliadau i'w gwneud hi'n ofynnol trefnu i weithiwr proffesiynol ardystiedig gynnal a chadw offer llosgi domestig yn flynyddol, yn amodol ar adolygiad. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal erbyn 2023.

Cyfathrebu a newid ymddygiad

Er mwyn lleihau llygredd aer, mae'n hanfodol meithrin cyd-ddealltwriaeth o arferion cyfredol yn gysylltiedig â llosgi tanwydd solet i ddibenion domestig. Bydd hyn hefyd yn cefnogi gwelliant i'n hamgylchedd ac i iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Byddwn yn gweithio gyda'r cyhoedd a chyrff preifat i gyfathrebu mewn modd rhagweithiol ynghylch y problemau, y cynnydd a'r datrysiadau ymarferol a gysylltir â llosgi tanwyddau solet, fel glo tŷ a choed gwlyb. Rydym yn defnyddio ymagwedd â ffocws wrth gyfathrebu, sy'n cefnogi datblygu a chyflawni gwaith drwy'r tair ffrwd a ganlyn. Y rhain yw darparu gwybodaeth, cynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo a chefnogi mentrau lleol.

Byddwn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwybodaeth a negeseuon allweddol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a chefnogi mentrau lleol. Ceir hefyd amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch sut i newid ymddygiad, a gwybodaeth gyfredol ynghylch y camau cyfredol sy'n cael eu cymryd i wella ansawdd yr aer. Yn ogystal â chyfathrebu drwy ddulliau digidol, byddwn hefyd yn datblygu deunyddiau go iawn y bydd modd eu rhannu â busnesau a chymunedau ledled Cymru.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd mewn manau eraill?

Gan fod llygredd aer yn croesi ffiniau, mae'n hanfodol inni ystyried y camau sy'n cael eu cymryd mewn gwledydd cyfagos. Yng Nghymru, ein cymdogion agosaf yw Lloegr ac Iwerddon.

Yn dilyn ei hymgyngoriad ei hun ar losgi domestig, mae'r Adran Ynni, Ffermio a Materion Gwledig (Defra) wedi cymryd y camau canlynol yn Lloegr:

- Bydd gwerthu glo tŷ traddodiadol mewn bagiau a choed gwlyb mewn unedau llai na 2m³ yn cael ei wahardd o fis Mai 2021;
- Bydd gwerthu glo rhydd yn uniongyrchol i gwsmeriaid drwy werthwyr glo cymeradwy yn dirwyn i ben erbyn mis Mai 2023, a bydd cyfle i'r cyhoedd newid i opsiynau eraill glanach; a
- Bydd cyfyngiadau hefyd ar werthu tanwyddau solet wedi'u gweithgynhyrchu i'w llosgi'n ddomestig o fis Mai 2021, a dim ond y mathau hynny o danwydd â chynnwys sylffwr isel, ac nad ydynt ond yn rhyddhau ychydig o fwg, y caniateir eu gwerthu.

Yn Iwerddon, amcangyfrifir bod oddeutu 8,000 o farwolaethau cyn pryd¹⁰ wedi cael eu hosgoi yn Nulyn ers cyflwyno gwaharddiad ar lo myglyd ym 1990. Canfu dadansoddiad mwy diweddar fod y cyfyngiadau ar lo meddal wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn problemau anadlol a marwolaethau cyn pryd yn sgil effeithiau llosgi glo myglyd yn y 'Parthau Mwg Isel' presennol.

Mae'r gwaharddiad bellach yn berthnasol i ddau ddeg chwech o drefi a dinasoedd, ac mae gwaith monitro ansawdd yr aer gan Asiantaeth Gwarchod yr Amgylchedd (EPA) wedi dangos lefelau is o DG₁₀ yn yr ardaloedd hyn nag mewn trefi lle nad yw'r gwaharddiad mewn grym. Amcangyfrifir bod gwerth ariannol y buddion hyn yn uwch na €20M.

Mae buddion ychwanegol y rheoliadau'n cynnwys penderfyniad gan lawer o ddeiliaid tai i newid o danwyddau solet, sydd fel arfer yn llai effeithlon ac yn creu mwy o lygredd, i nwy neu olew, sydd yn fwy effeithlon ac yn creu llai o lygredd. Amcangyfrifir mai'r gostyngiad cysylltiedig mewn costau tanwydd i ddefnyddwyr yw €184M y flwyddyn¹¹.

[Beth ydym ni eisiau ei wneud ynghylch llosgi tanwyddau solet i ddibenion domestig?](#)

Mae sawl ffactor yn effeithio ar lefelau allyriad a chrynodiad llygredd aer:

- Defnyddio tanwyddau glanach;
- Effeithlonrwydd yr offer;
- Defnydd cywir o'r offer;
- Bod yr offer wedi'u gosod gan weithiwr proffesiynol cymwys;
- Bod yr offer wedi'u gosod mewn man priodol; a
- Bod yr offer yn cael eu cynnal a'u cadw gan weithiwr proffesiynol cymwys.

Bydd cyfuno'r holl ffactorau hyn yn gwneud cryn wahaniaeth o ran cefnogi gwelliannau i ansawdd yr aer.

Ym mis Chwefror 2019, sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen gennym o randdeiliaid allweddol i lywio ein cyfeiriad i'r dyfodol wrth ymdrin ag allyriadau yn sgil llosgi tanwyddau solet i ddibenion domestig. Mae'r grŵp hwn wedi llywio datblygiad yr ymgynghoriad hwn. Mae'r grŵp wedi ein helpu i ystyried yr effeithiau, y risgiau a'r manteision posibl yn gysylltiedig â gwahanol ymyraethau, gan gynnwys gwahardd gwerthu'r mathau o danwydd solet sy'n creu'r mwyaf o lygredd (ar sail y dystiolaeth gyfredol, coed gwlyb a glo tŷ traddodiadol yw'r mathau hyn), deddfwriaeth i sicrhau mai ond yr offer mwyaf effeithlon sydd ar gael a rheoliad i sicrhau bod offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd gan weithiwr proffesiynol cymwys.

Rydym yn pryderu ynghylch effeithiau posibl cael gwaed â glo meddal/glo tŷ traddodiadol yn raddol a chyfyngu ar werthiant coed gwlyb ar gyflenwyr a defnyddwyr fel ei gilydd. Rydym yn pryderu'n arbennig am y rhai hynny sydd oddi ar y grid, nad oes ganddynt fynediad at ffurfiau eraill o danwydd i wresogi'r cartref ac/neu sy'n dioddef tlodi tanwydd. I'r grwpiau hyn, mae'n bosibl mai glo meddal/traddodiadol yw'r ffynhonnell wresogi rataf. Mae adroddiad diweddar gan y Gymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth Gwasanaethau Adeiladu¹², a gomisiynwyd gan Defra, wedi herio'r farn hon.

¹⁰ Cyfrifiadau yw amcangyfrifon baich marwolaethau sy'n rhoi syniad defnyddiol o raddfa'r broblem llygredd aer mewn ardal benodol ar adeg benodol. Mae angen eu dehongli'n ofalus gan nad yw'r ystod gyfatebol o farwolaethau yn cyfeirio at niferoedd 'gwirioneddol' o farwolaethau. Maent yn adlewyrchu swm y cyfraniadau bach yn sgil amlygiad llygredd aer tuag at ostyngiadau disgwyliad oes ymhlith yr holl unigolion mewn poblogaeth. Maent yn ystyried effeithiau aml-lygryddion, ac yn cyflwyno baich marwolaethau pob achos (annamweiniol) y gellir eu priodoli fel ystod 'effaith sy'n cyfateb i', yn hytrach nag amcangyfrif canolog.

¹¹ <https://www.dccae.gov.ie/en-ie/environment/topics/air-quality/smoky-coal-ban/Pages/Background-to-the-ban.aspx>

¹² https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/867429/burning-wood-consult-bsria-report1.pdf

Yn ei ganfyddiadau, nodai fod tanwyddau solet wedi'u gweithgynhyrchu yn fwy cost-effeithiol o'u cymharu â glo meddal/tŷ traddodiadol. Yn rhan o unrhyw fesurau i leihau allyriadau yn sgil llosgi domestig, dylid mynd ati yn y modd mwyaf effeithiol ag sy'n bosibl i ymdrin ag unrhyw ragdybiaethau. Rydym yn ymgysylltu â gwerthwyr glo, a hefyd â chyflenwyr coed i drafod manteision defnyddio coed sydd wedi'i sychu'n briodol, er mwyn lledaenu'r neges hon.

Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru)

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru) sy'n canolbwyntio ar gynnig i ddiwygio'r drefn ar gyfer Rheoli Mwg i leddfu'r baich gorfodi ar Awdurdodau Lleol. Yn ddiweddarach yn y ddogfen hon, rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylid gorfodi'r defnydd o Orchmynion Rheoli Mwg mewn ardaloedd poblogaeth ddiffiniedig, a hefyd yn archwilio ymarferoldeb cynnwys arferion llosgi awyr agored mewn deddfwriaeth.

Mewn Ardal Rheoli Mwg (SCA), mae'n drosedd allyrru mwg o simnai adeilad (gan gynnwys eiddo domestig, preswyl neu ddiwydiannol) onid yw tanwydd wedi cael ei awdurdodi i'w ddefnyddio, neu offer wedi'u heithrio i'w defnyddio mewn SCA. Mae deddfwriaeth rheoli mwg ar hyn o bryd wedi'i chynnwys yn y Ddeddf Aer Glân 1993.

Mae Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993 yn trafod y gyfraith ar Orchmynion Rheoli Mwg a'u dynodiad. Mae Adran 19 yn caniatáu'r posibilrwydd i Weinidogion Cymru ehangu ardaloedd Rheoli Mwg drwy gyfarwyddo Awdurdodau Lleol i'w hehangu i'w hardal gyfan. Nod y Ddeddf yw rheoli allyriadau mwg tywyll, graean, llwch a tharth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys eiddo a ffwrneisi diwydiannol.

Os bydd Awdurdod Lleol yn datgan SCA, bydd hynny'n golygu bod allyrru mwg o simnai yn drosedd. Fodd bynnag, mae'n anodd erlyn gan fod hynny'n gostus ac yn cymryd amser, a gellir defnyddio amddiffyniadau (fel defnyddio tanwydd wedi'i awdurdodi neu ddsbarth lle tân sydd wedi'i eithrio). Gan nad oes gan Awdurdodau Lleol rym i gael mynediad i eiddo, mae gorfodi yn her.

Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru rym i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i awdurdodi'r defnydd o danwyddau penodol mewn Ardal Rheoli Mwg (o dan adran 20(6) o'r Ddeddf) ac i eithrio rhai mathau o offer i'w defnyddio (o dan adran 21(5)). Bydd gweithgynhyrchwyr yn cyflwyno eu cynnyrch i'w brofi gan gynghorwyr technegol a fydd wedyn yn argymhell y cynnyrch y gellir ei roi ar y farchnad.

Bil Amgylchedd y DU

Ceir darpariaeth Cymru yn unig ym Mil Amgylchedd y DU sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi rhestrau sy'n cofnodi tanwyddau awdurdodedig a dosbarthau o leoedd tân sydd wedi'u heithrio. Ar ôl troi'r Bil yn Ddeddf, bydd grym Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â thanwyddau awdurdodedig yn cael ei ddiddymu. Dwy fabwysiadu rhestrau cyhoeddiedig, bydd modd sicrhau cysondeb yng Nghymru â Lloegr a'r Alban.

Bydd y newid hwn o fudd i fusnesau, oherwydd bydd hi'n llai tebygol y ceir gwall wrth gofnodi tanwyddau ac offer; bydd llai o oedi rhwng profi'r cynnyrch a'i roi ar y farchnad; a bydd defnyddwyr ar eu hennill wrth i fwy o gynnyrch gyrraedd y farchnad ynghynt, gan gynyddu'r dewis sydd ar gael.

Tanwyddau solet domestig

Bob tro wrth losgi tanwyddau solet bydd allyriadau DG_{2.5} yn cael eu cynhyrchu. Fodd bynnag, mae rhai tanwyddau'n cynhyrchu llawer mwy o DG_{2.5} nag eraill o'u llosgi yn yr un lleoliad yn union. Dyma'r prif danwyddau solet a ddefnyddir mewn lleoliad domestig:

- Glo meddal/tŷ traddodiadol: Cynnyrch naturiol a gaiff ei fwyngloddio sy'n creu llawer mwy o allyriadau DG_{2.5} na'r tanwydd glo carreg, di-fwg cyfatebol.
- Glo di-fwg (neu lo carreg): Glo pur iawn a geir yn naturiol ac a fwyngloddid, sy'n cynhyrchu llawer llai o allyriadau DG_{2.5} na mathau eraill o lo, ac sydd felly wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio mewn Ardaloedd Rheoli Mwg. Er hynny, y mae hefyd yn rhyddhau llawer mwy o CO₂ i'r aer.
- Tanwyddau mwynol solet a weithgynhyrchir: Y rhain yw'r "tanwyddau di-fwg a weithgynhyrchir" yn hytrach na "tanwyddau di-fwg naturiol" fel glo carreg a glo ager sych.
- Tanwyddau solet wedi'u gweithgynhyrchu'n llwyr o goed gwryfol: Cynnyrch wedi'i weithgynhyrchu o frics coed tân, y mae eu nodweddion wrth losgi yr un peth â boncyffion coed gwryfol. Gall y rhain gynhyrchu lefelau isel iawn o fwg (ac o DG_{2.5}) o'u llosgi mewn offer priodol.
- Tanwyddau solet o fio-màs prennol a weithgynhyrchir i greu brics: Cynnyrch wedi'i weithgynhyrchu sydd wedi'i brofi fel tanwyddau awdurdodedig i wirio eu bod yn cynhyrchu lefelau isel iawn o allyriadau mwg (a DG_{2.5}) o'u llosgi mewn offer priodol sydd wedi'u heithrio.
- Tanwyddau solet wedi'u gweithgynhyrchu o fio-màs arall i greu brics: Tanwyddau 'eraill' sydd ar gael yn fasnachol nad ydynt wedi'u profi ac na ddylid ond eu llosgi mewn ardaloedd nad ydynt yn Ardaloedd Rheoli Mwg.
- Coed gwlyb: Dyma'r term a ddefnyddir yn aml ar gyfer boncyffion coed tân nad ydynt wedi cael eu sychu'n ddigonol i'w llosgi'n effeithiol. Efallai y bydd coed gwlyb newydd gael eu torri, neu eu sychu'n rhannol. Bydd hynny'n golygu bod y cynnwys lleithedd ynddynt yn uwch, sy'n creu mwy o allyriadau wrth eu llosgi. Ni fydd coedd gwlyb iawn yn llosgi nes iddynt gael eu sychu'n llwyr ar ôl eu hychwanegu at dân sefydledig. Wrth iddynt sychu, bydd allyriadau ychwanegol yn cael eu rhyddhau.
- Coed wedi'u sychu'n naturiol: Coed sydd wedi'u gadael i sychu'n naturiol yn yr aer, ac na ddylid eu llosgi nes bod eu cynnwys lleithedd yn is nag 20%.
- Coed sydd wedi'u sychu mewn odynt: Coed sydd wedi'u sychu mewn odynt er mwyn cyflymu'r broses sychu'n sylweddol i sicrhau cynnwys lleithedd is nag 20%.

Comisiynwyd Wood PLC gennym i ddatblygu pecyn o fesurau i ostwng y llygryddion aer sy'n cael eu hallyrru drwy ddefnyddio'r Gronfa Ddata Mesurau Aml-Lygrydd (MPMD). Nodwyd rheoleiddio gwerthiant coed gwlyb a glo traddodiadol, ymhlith eraill, fel mesurau sy'n lleihau allyriadau ac sydd drwy hynny'n sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau Ewropeaidd.

Camau arfaethedig i ymdrin ag allyriadau yn sgil llosgi tanwyddau solet i ddibenion domestig

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar gynigion i:

- Ddirwyn gwerthiant glo meddal/tŷ traddodiadol i ben ar gyfer llosgi domestig;
- Gwahardd gwerthu coed gwlyb i'w danfon i gartrefi ac/neu i'w defnyddio mewn niferoedd uwch na throthwy penodol;
- Cymhwyso safonau sylffwr a throthwyon allyrru mwg i'r holl danwyddau solet mwynol a weithgynhyrchir; a
- Chymhwyso safonau i danwyddau solet bio-màs a weithgynhyrchir.

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, yn ôl yr arolwg diweddaraf o Gyflwr Tai Cymru¹³, dim ond 1% o gartrefi yng Nghymru sy'n defnyddio tanwyddau solet fel prif ffynhonnell wresogi. Mae hyn yn cynnwys glo meddal/tŷ traddodiadol, tanwydd di-fwg, glo carreg, coed a bio-màs. Mae hyn yn ostyngiad o ddwy ran o dair yn erbyn arolwg cymharol 2008¹⁴. Cydnabyddir bod yr aelwydydd sy'n ddibynnol ar danwydd solet ar gyfer gwres mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, lle nad yw opsiynau eraill ar gael yn rhwydd. Mae'n wir hefyd fod cyfran uwch o aelwydydd yn y Gymru wledig yn byw mewn tloedi tanwydd, gyda'r ganran yn uwch na'r 12% ar gyfer Cymru gyfan. Mae'n hanfodol felly fod unrhyw gynigion hefyd yn ystyried camau lliniarol a mesurau i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cynnig mesurau i sicrhau gostyngiad clir mewn allyriadau DG_{2.5} yn sgil llosgi tanwyddau solet. Yn ogystal, credwn na fydd hyn yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gan fod symud i ffwrdd oddi wrth danwyddau sy'n creu llawer o lygredd tuag at danwyddau mwg isel mewn gwirionedd yn creu gwell effeithlonrwydd a gwerth am arian. Yn rhan o gynllun ehangach, Aer Glân i Gymru, byddwn yn cynnal gweithgareddau i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r manteision hyn.

¹³ <https://llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru>

¹⁴ <https://llyw.cymru/yr-arolwg-byw-yng-nghymru-2008>

Dirwyn gwerthiant glo meddal/tŷ traddodiadol i ben ar gyfer llosgi domestig

Drwy ein Cynllun Aer Glân i Gymru rydym yn ymrwymo i wahardd gwerthu'r tanwyddau sydd yn achosi'r mwyaf o lygredd ledled Cymru. Ar ôl coed gwlyb, glo tŷ traddodiadol yw un o'r tanwyddau sy'n achosi'r mwyaf o lygredd (yn nhermau DG_{2.5}) ar y farchnad ddomestig ac, o gydnabod yr allyriadau carbon cysylltiedig, mae angen gweithredu ar unwaith i ymdrin â hyn. Amcangyfrifir bod glo di-fwg fel glo carreg ar y llaw arall yn achosi pedair gwaith yn llai o lygredd na glo meddal/tŷ traddodiadol, a'i fod yn debyg i danwyddau solet a weithgynhyrchir yn nhermau allyriadau a gynhyrchir a'r effeithlonrwydd llosgi/gwresogi cyffredinol.

O ran costau gwresogi¹⁵, er bod glo meddal/tŷ traddodiadol yn rhatach ar gyfartaledd na thanwyddau di-fwg, mae cost flynyddol yr ynni a ddarperir dros flwyddyn yn uwch, yn dibynnu wrth gwrs ar effeithlonrwydd yr offer a ddefnyddir. Rydym yn amcangyfrif y byddai cyfran fach iawn o ddefnyddwyr sy'n defnyddio glo tŷ traddodiadol ar gyfer eu holl wres gyda gwresogyddion ystafell yn profi cynnydd yng nghyfanswm cost eu tanwydd os ydynt yn defnyddio'r glo rhataf a lleiaf effeithlon o ran gwres ar hyn o bryd. Ochr yn ochr ag unrhyw gyfyngiad ar werthu a defnyddio glo o'r fath, byddai angen ymgyrch effeithiol i ddangos beth yw cost ac effeithlonrwydd mathau eraill o danwydd gwresogi. Rydym wedi ystyried camau lliniaru posibl ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tloidi tanwydd, a byddem yn croesawu adborth pellach ynghylch sut y gellid ymdrin â hyn.

Rydym yn bwriadu cyflwyno'r gwaharddiad arfaethedig drwy ymgysylltu â'r prif gyflenwyr. Drwy wneud hyn byddwn yn cyrraedd mwyafrif y farchnad yn gyflym ac yn gymharol rwydd. Byddai un model i'w ystyried yn debyg i'r model a fabwysiadwyd yn Iwerddon, lle mae'n rhaid i'r holl weithredwyr sy'n rhoi glo mewn sachau a chyflenwyr tanwydd ar gyfer y farchnad breswyl gofrestru gyda'r corff priodol (yr EPA yn Iwerddon) a chadw cofnod o'u cynnyrch i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Fel arall, gellid sefydlu tystysgrif achredu cynnyrch wedi'i harwain gan y diwydiant (yn debyg i'r dystysgrif Ready to Burn ar gyfer coed) er mwyn helpu cyflenwyr a defnyddwyr i adnabod y cynnyrch priodol.

Ar sail yr adborth o'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn cynnal archwiliad llawn o'r opsiynau darparu ar gyfer Cymru, gan ystyried modelau arfer da sy'n bodoli eisoes, fel yr un a ddefnyddir yn Iwerddon.

¹⁵ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/867429/burning-wood-consult-bsria-report1.pdf

Cwestiynau

1. Ydych chi'n cytuno y dylem ddirwyn gwerthu glo meddal/tŷ traddodiadol i ben ar gyfer defnydd domestig?
2. Beth ydych chi'n ei ystyried fel cyfnod pontio rhesymol er mwyn caniatáu i'r diwydiant a deiliaid tai ddefnyddio'r stoc bresennol?
 - a. Blwyddyn?
 - b. 2 flynedd?
 - c. Dim cyfnod pontio?
3. O gael gwaharddiad, byddai angen sicrhau mesurau i atal cynnyrch glo meddal/tŷ traddodiadol rhag cael ei farchnata fel tanwyddau "di-fwg" neu "fwg isel".
 - a. A fydddech yn ystyried y model Gwyddelig ar gyfer cofrestru cyflenwyr yn briodol? (rhowch eich rhesymau)
 - b. A fyddai'n well gennych weld ymagwedd a arweinir gan y diwydiant? (tebyg i gynllun "Ready to Burn" y cyfeirir ato yn yr adran ar goed isod)
4. Sut y byddai angen i'ch busnes addasu, os o gwbl, er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gynnig i ddirwyn glo meddal/tŷ traddodiadol i ben?
5. Pa gymorth a allai fod ei angen arnoch er mwyn gwneud yr addasiadau hyn.
6. A ydych yn cytuno ein bod yn cymryd camau priodol o ystyried yr angen i leihau ein hallyriadau carbon?
7. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ar yr adran hon, dylech eu nodi yma.

Gwahardd gwerthu coed gwlyb i'w llosgi i ddibenion domestig

Mae'n anodd amcangyfrif y defnydd o goed tân gan fod cynifer o gyflenwyr ac oherwydd y posibilrwydd o gael cyflenwad preifat neu hunangyflenwi. Amcangyfrifodd Strategaeth Aer Glân Defra ddefnydd o hyd at 6M tonnall y flwyddyn¹⁶. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn awgrymu bod y ffigur yn nes at 3M tonnall. Mae cyflenwyr tanwydd yn amcangyfrif bod y ffigur hwn yn nes at 2.5M tonnall y flwyddyn, gyda defnydd bras o oddeutu 150-200 cilodunnell yng Nghymru¹⁷. Gyda chefnogaeth Cynghrair y Diwydiant Stofiau, cynhaliodd HETAS arolwg yn 2019¹⁸ wedi'i ddilysu'n annibynnol gan Kiwa, ac yn seiliedig ar 10,620 o ymatebwyr. Dangosai'r arolwg hwn mai cyfaint y coed a losgwyd oedd 1.85 tonnall, sef llai na thraean yr amcangyfrif a ddefnyddiwyd yn Strategaeth Aer Glân Defra.

Roedd arolwg ledled Cymru a gynhaliwyd yn 2012 yn amcangyfrif bod tua 576,000m³ o goed solet yn cael ei ddefnyddio bob blwyddyn i ddibenion llosgi domestig¹⁹. Heb wybodaeth am y mathau neilltuol o goed, na'u dwysedd, nid oes modd trosi'r cyfaint hwn i bwysau cyfatebol. Er hynny, mae'n wir fod swm sylweddol o goed yn cael ei losgi yng Nghymru bob blwyddyn.

Bydd coed fel arfer yn cael eu hystyried yn sych os ydynt yn cynnwys llai na 20% o leithder ac yn wlyb os yw'r cynnwys lleithedd yn uwch na 20%. Gall coed gynnwys cymaint â 60% o leithder wrth iddynt gael eu torri, ond bydd coed sydd wedi'u sychu'n naturiol neu eu sychu mewn odyn leithedd rhwng 12% a 20% ar gyfartaledd. Mae angen defnyddio rhyw fath o ynni i sychu coed mewn odyn, ond ni fydd angen ynni fel arfer i sychu coed yn naturiol

Canfuwyd bod coed â chynnwys lleithedd uwch yn cynhyrchu mwy o fwg na choed sych. Ar y llaw arall, mae coed sy'n rhy sych yn llosgi'n rhy gyflym, sydd wedyn yn cynyddu allyriadau digroeso. Mae ychydig o leithder yn dda er mwyn cymedroli'r gyfradd losgi.

Mae canfod beth yw cynnwys lleithedd coed wrth eu llosgi hyd yn oed yn fwy heriol na chyfanswm eu cyfaint. Yn ôl amcangyfrifon o'r diwydiant, mae oddeutu 80% o goed yn cael eu cyflenwi'n wlyb; ond mae ffynonellau eraill fel yr Arolwg Defnydd Coed Domestig²⁰ a gynhelir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn awgrymu cyfran lawer is - o bosib mor isel ag 20%.

Tybir yn anghywir bod llawer o'r coed a werthir mewn sypiau llai, er enghraifft mewn gorsafoedd petrol, siopau DIY, canolfannau garddio ac ar ochr y ffordd, yn goed sych, ac felly fe'i defnyddir ar unwaith. Rydym ni'n cynnig cyflwyno deddfwriaeth i wahardd gwerthu coed â chynnwys lleithedd 20% neu fwy, ac eithrio lle cânt eu prynu mewn symiau mwy, gyda'r bwriad o'u sychu cyn eu defnyddio.

O ystyried effaith bosibl hyn ar gyflenwyr tanwydd yng Nghymru, efallai y bydd angen cyfnod pontio priodol fel bo modd i gyflenwyr sychu cyflenwadau presennol, neu wneud trefniadau eraill i'w gwerthu.

16

<https://www.gov.uk/government/publications/summary-results-of-the-domestic-wood-use-survey>

¹⁷Cyfrifiad y farchnad gan CPL Industries, 2019

¹⁸ <https://www.auldstonstoves.co.uk/wp-content/uploads/2019/12/A-Review-of-the-Impact-of-Domestic-Combustion-on-UK-Air-Quality-1.pdf>

¹⁹ <https://llaisgoedwig.org.uk/wp-content/uploads/2013/12/Wales-Domestic-Firewood-Survey-2012.pdf>

²⁰ [Crynodeb o arolwg defnydd coed domestig, BEIS](#)

Er mwyn gweithredu'r newid hwn, fel y cynigiwyd gan Lywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig adeiladu ar y cynllun ardystio Ready to Burn sy'n bodoli eisoes, ac a arweinir gan y diwydiant. Byddai angen i gyflenwyr sy'n dymuno gwerthu coed ar ôl y cyfnod pontio wneud cais am yr ardystiad priodol.

Cwestiynau

8. Rydym yn ystyried cyfaint isafswm ar gyfer gwerthu coed gwlyb i ddeiliaid tai. Rydym yn cynnig y dylid pennu isafswm o 2m^3 , ond rydym am ofyn eich barn ynghylch hyn. Nodwch pa isafswm y dylid ei bennu yn eich barn chi.

- a. Ni ddylid cael isafswm
- b. Dim cyfaint llai na 0.5m^3
- c. Dim cyfaint llai nag 1m^3
- d. Dim cyfaint llai na 2m^3
- e. Gwahardd gwerthu coed gwlyb yn llwyr

Sylwer: Mae bag rhwyd arferol o goed wedi'i brynu o siop DIY, garej neu siop arall fel arfer yn llai na 0.1m^3 .

9. Ydych chi'n meddwl y dylid trefnu cyfnod pontio er mwyn i gyflenwyr a gwerthwyr allu gwerthu eu stoc bresennol o goed gwlyb?

Sylwer: Byddai cyflenwyr a manwerthwyr yn cael cadw cyflenwadau o goed gwlyb i'w sychu, ond ni fyddent yn cael gwerthu'r coed hynny i ddefnyddwyr domestig pe bai'r cynnwys lleithedd yn uwch na 20%.

10. Os felly, beth fyddai hyd y cyfnod pontio?

- a. Blwyddyn
- b. 2 flynedd
- c. Dim cyfnod pontio

11. Ydych chi'n cytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i gyflenwyr tanwydd coed fod yn aelodau o gynllun ardystio sy'n rhoi sicrwydd (drwy brofion ac archwiliadau) fod cynnwys lleithedd y coed yn 20% neu lai?

- a. Ydw
- b. Nac ydw

- 12. Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol yn gyfreithiol i fanwerthwyr sy'n gwerthu coed storio'r coed mewn modd a fydd yn sicrhau eu bod yn cyfateb â'r cynnwys lleithedd a nodwyd arnynt o leiaf?**
- a. Ydw
 - b. Nac ydw
- 13. Fel arall, a fyddech yn croesawu ymgyrch i roi canllawiau i fanwerthwyr ac aelwydydd ynghylch y dulliau gorau o storio coed gwlyb a sych, ac am ba mor hir i'w storio er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu sychu'n briodol?**
- a. Byddwn
 - b. Na fyddwn
- 14. Ydych chi'n teimlo y dylai Llywodraeth Cymru drin coed sydd wedi'u sychu mewn odyn yn wahanol i goed sydd wedi'u sychu'n naturiol, neu drin y ddau fath yn gyfartal?**
- 15. A ddylai'r ymdriniaeth â gwerthiant coed gwlyb i eiddo domestig fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig i'r ymdriniaeth mewn ardaloedd trefol.**
- 16. Os ydych chi'n gyflenwr/fanwerthwr, sut y byddai'r cynigion hyn yn effeithio ar eich busnes?**
- 17. Pa gymorth a allai fod ei angen arnoch er mwyn gwneud yr addasiadau hyn.**
- 18. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ar yr adran hon, dylech eu nodi yma.**

Cymhwyso safonau i danwyddau solet mwynol a weithgynhychir

Mae tanwyddau sy'n cynnwys llawer o sylffwr yn niweidiol i iechyd pobl ac i'r amgylchedd naturiol. Mae SO₂ yn ysgogi'r nerfau yn leinin y trwyn a'r gwddf. Gall hyn achosi llid, peswch a theimlad o dyndra yn y frest, a allai achosi i'r llwybrau anadlu gulhau. Ystyrir bod pobl sy'n dioddef o asthma ac anhwylderau eraill anadlol yn arbennig o sensitif i grynodiadau o SO₂²¹.

Yng Nghymru, amcangyfrifir bod llosgi domestig yn cyfrannu 18% at y cyfanswm o allyriadau SO₂²², o gymharu â 23%²³ ar draws y DU yn ei chyfanrwydd. Serch hynny, mae adborth o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llosgi Domestig Llywodraeth Cymru, a gefnogir gan drafodaethau â swyddogion yn Defra, yn cefnogi'r angen i reoleiddio cynnwys sylffwr cynnyrch tanwydd a weithgynhychir. Mae cost deunyddiau crai sylffwr uchel ar gyfer tanwydd solet a weithgynhychir yn ymddangos yn isel, ac mae hynny a'r diffyg rheoleiddio i gyfyngu ar y swm sy'n cael ei ddefnyddio wedi golygu mwy o ddefnydd ohonynt o fewn y diwydiant.

Fel y mae ar hyn o bryd, dim ond tanwyddau y bwriedir eu defnyddio mewn SCA sydd â therfyn cynnwys sylffwr o 2% - ni cheir y terfyn hwnnw yn unrhyw fan arall. Dim ond pedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru sy'n cynnwys SCA²⁴, felly mae cynnwys sylffwr tanwyddau ym mwyafrif y wlad yn dal heb ei reoleiddio. Yr hyn sy'n gwaethygu'r broblem yn aml yw'r ffaith bod nifer o danwyddau solet ar gael sy'n cael eu gwerthu fel tanwydd di-fwg, ac sy'n cynnwys lefelau sylweddol uwch o sylffwr.

Mewn trafodaethau â glanhawyr simneiau a chynhyrchwyr stofiau, pwysleisiwyd effaith niweidiol bosibl tanwyddau sylffwr uchel ar offer a simneiau, sydd yn aml yn byrhau oes ac yn lleihau effeithlonrwydd y cynnyrch yn sylweddol.

Bydd yn rhaid i danwyddau a gymeradwyir i'w defnyddio mewn SCA hefyd basio prawf allyriadau mwg i sicrhau nad ydynt yn rhyddhau dros 5 gram o fwg fesul awr o weithrediad. Rydym hefyd yn cynnig cymhwyso'r safon allyriadau mwg i'r holl danwyddau solet mwynol a weithgynhychir i'w defnyddio yn unrhyw le yng Nghymru.

Bydd hyn yn creu safon ofynnol glir ar gyfer yr holl danwyddau solet a weithgynhychir yng Nghymru ac yn gyson â chynigion gan Defra, sy'n arbennig o bwysig i gymunedau ger y ffin.

Cwestiynau

19. Ydych chi'n cytuno y dylem gyflwyno safon ar gyfer yr holl danwyddau solet mwynol a weithgynhychir sy'n cadarnhau bod eu cynnwys sylffwr yn is na 2% a'u bod yn bodloni terfyn allyriadau mwg o 5g/hr?

- a. Ydw**
- b. Nac ydw**

²¹ https://naei.beis.gov.uk/overview/pollutants?pollutant_id=8

²² Fel yr uchod

²³ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/778483/Emission_s_of_air_pollutants_1990_2017.pdf

²⁴ Cyngor Bwrdeistref Sir y Fflint, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

20. Er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gynnig i gymhwyso safonau allyriadau sylffwr a mwg i'r holl danwydd solet mwynol a weithgynhrychir, sut y byddai angen i'ch busnes addasu, os o gwbl?

Tanwyddau solet bio-màs a weithgynhrychir

Mae amrywiaeth gynyddol o danwyddau solet amgen sy'n seiliedig ar fio-màs ar gael ar y farchnad ac yn cael eu datblygu, fel boncyffion a pheli o wastraff coffi mâl. Mae Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Llywodraeth y DU wedi cymeradwyo Cofrestr Tanwydd Cynaliadwy (SFR) i ardystio'r cynhyrchion hynny.

Ffocws y gyfundrefn ardystio ar hyn o bryd yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Rydym yn cynnig ymgysylltu â'r SFR a BEIS i ehangu'r ardystiad i gynnwys ffactorau ansawdd aer fel DG.

Cwestiynau

- 21. Ydych chi'n cytuno y dylem ategu'r SFR ac ymroi i annog gweithgynhrychwyr yng Nghymru i ymgeisio?**
- 22. Ydych chi'n cytuno y dylid ehangu unrhyw gynllun cofrestru ar gyfer tanwyddau solet bio-màs a weithgynhrychir i gynnwys profi ac ardystio ar gyfer DG ac allyriadau eraill?**
- 23. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ar yr adrannau ar danwyddau a weithgynhrychir, dylech eu nodi yma.**

Offer

Er bod stofiau newydd yn datblygu'n fwy effeithlon, mae'r ymdriniaeth ag offer hŷn a llai effeithlon, ac offer sy'n achosi mwy o lygredd, yn dal i achosi problemau. Y cwestiwn cyntaf yw pa ddull sydd orau er mwyn adnabod yr offer hyn, a'r ail fater yw'r ffordd orau o sicrhau bod offer newydd yn cael eu gosod yn eu lle, os yw hynny'n ymarferol ac yn bosibl.

O ran offer newydd, bydd system labelu newydd clearSkies o gymorth i sicrhau bod gan ddefnyddwyr ddealltwriaeth gliriach o'r opsiynau sydd ar gael iddynt, a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau deallus wrth ystyried prynu.

Cwestiynau

- 24. Ydych chi'n cytuno y dylid ardystio technegwyr â chymwysterau priodol (gosodwyr, peirianwyr gwasanaeth a glanhawyr simneiau) i'w galluogi i roi canllawiau amgylcheddol a chondemnio offer peryglus?**
- 25. Yn rhai rhannau o Ffrainc mae'n ofynnol i simneiau gael eu glanhau'n flynyddol gan lanhawr simneiau cofrestredig a chymwys. Fel arall, os bydd tân yn cael ei achosi gan y stof, ni fydd yr yswiriant cartref yn ddilys. Ydych chi'n cytuno y dylid mabwysiadu'r dull hwn yng Nghymru?**
- 26. A fydddech chi'n ystyried bod rhyw fath o gynllun sgrapio yn ddull priodol o annog pobl i osod offer newydd yn lle offer aneffeithlon sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?**
- 27. A ddylid cyfyngu unrhyw gynllun sgrapio i aelwydydd lle bydd tanwyddau solet yn cael eu llosgi fel y brif ffynhonnell wresogi, neu a ddylid ehangu'r cynllun i annog pobl i ddefnyddio dulliau gwresogi di-garbon?**
- 28. Mae'r gallu i bennu cyfraddau treth ar hyn o bryd y tu hwnt i gwmpas Llywodraeth Cymru. Ydych chi'n cefnogi cynnig i ystyried cyfradd TAW is ar gyfer cynnal a chadw tanau a stofiau domestig er mwyn annog aelwydydd i gynnal a chadw eu hoffer yn rheolaidd?**

Cymorth i aelwydydd newid i ffynonellau gwresogi amgen

Gall newidiadau i argaeledd rhai mathau o danwydd, yn enwedig glo meddal neu lo tŷ traddodiadol a choed heb eu sychu y gellir eu cael yn rhatach na thanwyddau eraill, effeithio ar dlodi tanwydd. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd gwledig lle mae mynediad at opsiynau eraill yn gyfyngedig neu'n aneconomaidd. Mae Llywodraeth Cymru'n benderfynol o gael gwared â thlodi tanwydd, felly mae'n rhaid sicrhau na fydd unrhyw gamau a gymerir yn gysylltiedig â llosgi domestig yn cadw pobl mewn tlodi tanwydd, neu'n gwrthio pobl tuag at hynny. Bydd gweithio tuag at Sero-Net â rhan i'w chwarae yma, wrth i lywodraethau ar draws y DU ddatblygu strategaethau i drydaneiddio'r gwres yn ein cartrefi, a lleihau'r defnydd o danwyddau carbon uchel.

Rydym felly'n gofyn am eich barn ynghylch ystod o opsiynau sydd wedi cael eu datblygu a'u hamlinellu isod. Rydym hefyd am ganfod unrhyw opsiynau amgen er mwyn helpu aelwydydd i symud i ffwrdd oddi wrth losgi domestig a gosod ffynonellau gwyrddach a mwy cynaliadwy sy'n creu llai o lygredd, neu osod offer mwy effeithlon os yw opsiynau mwy cynaliadwy'n aneconomaidd neu'n anaddas.

Opsiwn 1 - Cynllun Sgrapio Gwirfoddol

Mae cynlluniau sgrapio gwirfoddol wedi cael eu rhoi ar waith mewn nifer o wledydd Ewropeaidd, ond mae llwyddiant y cynlluniau hynny'n amrywio. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi cymorth i aelwydydd cymwys sydd ar hyn o bryd yn defnyddio tanau agored neu stofiau llosgi coed/aml-danwydd fel eu prif ffynhonnell wresogi. Bwriad y gefnogaeth fyddai uwchraddio i ffynonellau gwresogi eraill lle bo modd, ac i offer mwy effeithlon sy'n cydymffurfio â gofynion ecoddyllunio os yw hynny'n anymarferol neu'n rhy gostus.

Yr ymagwedd fyddai sefydlu cymhwysra, a rhoi'r flaenoriaeth i'r aelwydydd hynny a chanddynt y mwyaf o angen ar raddfa symudol o gymorth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

1. Cymhwysra
 - a. Tlodi tanwydd;
 - b. Yn derbyn budd-daliadau/credyd cynhwysol;
 - c. Aelod o'r aelwyd â chyflwr iechyd cyfyngol (gan gynnwys clefydau anadlol, COPD, asthma plant);
 - d. Eraill mewn cymunedau gwledig.
2. Meini prawf blaenoriaethu aelwydydd
 - a. Y prif ffynhonnell wresogi/yr unig ffynhonnell wresogi ar hyn o bryd;
 - b. Cartref heb ei inswleiddio neu â lefel isel o inswleiddio;
 - c. Oddi ar y grid nwy.
3. Graddfa symudol o gymorth yn dibynnu ar gymhwysra ac ar y meini prawf aelwydydd
 - a. Cymorth llawn i aelwydydd cymwys newid o lo/coed i ddulliau gwresogi cynaliadwy digarbon; ee trydan, solar neu bympiau gwres o'r aer/ddaeear;
 - b. A% i aelwydydd cymwys newid o lo/coed i ddulliau gwresogi eraill;
 - c. B% os yw'n uwchraddio o dân agored / stof llosgi coed hŷn a llai effeithlon i offer modern sy'n cydymffurfio â gofynion ecoddyllunio.

Opsiwn 2 - Ei gwneud hi'n orfodol tynnu offer nad ydynt yn cydymffurfio/gosod offer newydd yn eu lle

Yn yr opsiwn hwn ystyrir cyflwyno cynllun cofrestru a fyddai'n cofnodi'r holl aelwydydd lle defnyddir llosgi domestig fel ffynhonnell wresogi. Ar gyfer hyn byddai angen ymgysylltu â chyrff a busnesau o'r diwydiant fel gwerthwyr glo, cyflenwyr coed, glanhawyr simneiau a pheirianwyr gosod stofiau er mwyn gallu adnabod yr aelwydydd dan sylw.

Y cynnig fyddai llunio cofrestr i ddechrau o'r holl aelwydydd â thanau agored ac offer, wedyn gweithio gyda gweithwyr â chymwysterau priodol ym maes gosod a chynnal a chadw offer i bennu faint ohonynt sy'n cydymffurfio â gofynion ecoddyllunio. Byddai aelwydydd wedyn yn derbyn cymorth i osod ffynonellau gwresogi eraill yn lle unrhyw systemau presennol.

1. Cofrestru cartrefi â thanau agored ac offer llosgi coed neu aml-danwydd;
 - a. Profion gorfodol ar offer i asesu a ydynt yn cydymffurfio â meini prawf ecoddyllunio. O beidio bodloni'r meini prawf hynny, byddai'n orfodol gosod offer arall yn lle'r rhai presennol:
 - i. Cymorth llawn os yw'n newid o lo/coed i ddull gwresogi cynaliadwy di-garbon; ee trydan neu bympiau gwres o'r aer/ddaear;
 - ii. Cymorth llawn os yw'n newid o lo/coed i dulliau eraill o wresogi;
 - iii. A% o gymorth os yw'n uwchraddio o dân agored / stof hŷn llai effeithlon i offer modern sy'n cydymffurfio â gofynion ecoddyllunio - ond dim ond os yw opsiynau eraill yn aneconomaidd i'w cynnal neu heb fod ar gael.

Opsiwn 3 - Cyfuniad o'r Cynllun Sgrapio Gwirfoddol ac Ehangu SCAs

Mae'r opsiwn hwn yn ystyried effaith cynnwys preswylwyr SCAs yng nghwmpas cynllun. Efallai y bydd angen mwy o gymorth er mwyn i aelwydydd sydd y tu allan i SCAs â thanau agored neu stofiau llosgi coed/aml-danwydd allu uwchraddio i ffynonellau gwresogi eraill.

Yn Neddf Aer Glân 1993 a24, ceir darpariaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gyfrannu at unrhyw gostau addasu ar anheddau er mwyn sicrhau cydymffurfio ag SCAs, hyd at 30% o'r costau hynny. O dan Atodlen 2 y Ddeddf, lle bo'r annedd wedi'i chodi cyn 1964, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyfrannu o leiaf 70% o gost yr addasiadau.

1. Cymhwysra

- a. Tlodi tanwydd;
- b. Yn derbyn budd-daliadau/credyd cynhwysol;
- c. Cyflyrau iechyd cyfyngol (gan gynnwys clefydau anadlol, COPD, asthma plant);
- d. Eraill mewn cymunedau gwledig;
- e. Annedd a godwyd cyn 1964 mewn SCA;
- f. Annedd o fewn SCA.

2. Meini prawf blaenoriaethu aelwydydd

- a. Y brif ffynhonnell wresogi/yr unig ffynhonnell wresogi ar hyn o bryd;
- b. Cartref heb ei inswleiddio neu â lefel isel o inswleiddio;
- c. Oddi ar y grid nwy.

3. Graddfa symudol o gymorth yn dibynnu ar gymhwysra ac ar y meini prawf aelwydydd

- a. Cymorth llawn i aelwydydd sy'n bodloni meini prawf cymhwysra a) i ch) er mwyn newid o wres glo/coed i ddulliau cynaliadwy di-garbon o wresogi; ee trydan, solar, pypiau gwres o'r aer/ddaear;
- b. A% ar gyfer aelwydydd sy'n bodloni meini prawf a) i ch) er mwyn trosi o lo/coed i nwy; ar gyfer aelwydydd sy'n bodloni meini prawf cymhwysra d) ac dd) i newid o lo/coed i ddulliau gwresogi cynaliadwy di-garbon; ee trydan, solar neu bympiau gwres o'r aer/ddaear;
- c. B% ar gyfer aelwydydd sy'n bodloni meini prawf cymhwysra a) i ch) os ydynt yn newid o dân agored/stof llosgi coed hŷn llai effeithlon i offer modern sy'n cydymffurfio â gofynion ecoddylunio; ar gyfer aelwydydd sy'n bodloni meini prawf cymhwysra d) ac dd) i drosi o lo/coed i ddulliau gwresogi eraill;
- d. C% ar gyfer aelwydydd sy'n bodloni meini prawf cymhwysra d) os ydynt yn newid o dân agored/stof llosgi coed hŷn llai effeithlon i offer modern sy'n cydymffurfio â gofynion ecoddylunio;
- e. Ch% ar gyfer aelwydydd sy'n bodloni meini prawf cymhwysra dd) os ydynt yn newid o dân agored/stof llosgi coed hŷn llai effeithlon i offer modern sy'n cydymffurfio â gofynion ecoddylunio.

Cwestiwn

29. Ydych chi'n ffafrio unrhyw un o'r opsiynau a amlinellir uchod?

- a. Opsiwn 1
- b. Opsiwn 2
- c. Opsiwn 3
- d. Nid wyf yn ffafrio yr un o'r opsiynau - rhowch resymau

Ardaloedd Rheoli Mwg

I gefnogi'r cynigion hyn, fel y soniwyd yn gynharach yn yr ymgynghoriad hwn, rydym hefyd yn adolygu'r gyfundrefn gyfredol ar gyfer Ardaloedd Rheoli Mwg (SCAs) oherwydd byddai'r ardaloedd hynny'n cael cryn effaith ar allyriadau o losgi domestig lle byddent mewn grym.

Cwestiynau

30. A fydddech chi'n cytuno y dylid cynyddu'r defnydd o SCA a'u cwmpas er mwyn cael rheolaeth well ar allyriadau o losgi domestig?

31. Os felly, sut y dylid ehangu cwmpas yr ardaloedd hynny?

- a. Cymru Gyfan.
- b. Prif ganolfannau poblogaeth (trefi a dinasoedd y mae eu poblogaeth yn fwy na maint penodol).
- c. Dull arall o fesur ee, dwysedd tai, lefel amddifadedd, agosrwydd at dderbynyddion sensitif.

Hylosgi yn yr awyr agored

Yn rhan o'r Cynllun Aer Glân, gwnaethom ymrwymo i gynnwys hylosgi domestig awyr agored yn yr ymgynghoriad hwn, ar ffurf chimineas, barbeciw a phyllau tân ac ati. Ni cheir rheoliadau ar gyfer yr offer hyn ar hyn o bryd, nac ar gyfer y tanwyddau a ddefnyddir. Mae ehangu'r rheoliadau i gynnwys yr offer hyn, a'r tanwyddau a ddefnyddir ynddynt, yn gymhleth, a gallai fod yn ddadleuol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod y gall defnyddio offer o'r fath achosi niwsans ac, o bosib, niweidio ansawdd yr aer, yn dibynnu ar y mathau o offer a'r tanwydd a ddefnyddir.

Cwestiwn

32. Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau sydd ar gael i reoleiddio'r mathau o offer a thanwyddau y ceir eu defnyddio mewn mannau awyr agored?

- a. Ydw
- b. Nac ydw

Ffurflen
Ymateb i'r
Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiynau

- 1) Ydych chi'n cytuno y dylem ddirwyn gwerthu glo meddal/tŷ traddodiadol i ben i ddibenion llosgi domestig/preswyl?
- 2) Beth ydych chi'n ei ystyried fel cyfnod pontio rhesymol er mwyn caniatáu i'r diwydiant a deiliaid tai ddefnyddio'r stoc bresennol?
 - a) Blwyddyn?
 - b) 2 flynedd?
 - c) Dim cyfnod pontio?
- 3) O gael gwaharddiad, byddai angen sicrhau mesurau i atal cynnyrch glo meddal/tŷ traddodiadol rhag cael eu marchnata fel tanwyddau "di-fwg" neu "fwg isel".
 - a) A fydddech yn ystyried y model Gwyddelig ar gyfer cofrestru cyflenwyr yn briodol? (rhowch eich rhesymau)
 - b) A fyddai'n well gennych weld ymagwedd a arweinir gan y diwydiant (tebyg i'r cynllun "Ready to Burn")?
- 4) Sut y byddai angen i'ch busnes addasu, os o gwbl, er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gynnydd i ddirwyn glo meddal/tŷ traddodiadol i ben?
- 5) Pa gymorth a allai fod ei angen arnoch er mwyn gwneud yr addasiadau hyn.
- 6) A ydych yn cytuno ein bod yn cymryd camau priodol o ystyried yr angen i leihau ein hallyriadau carbon?
- 7) Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ar yr adran hon, dylech eu nodi yma.

8) Rydym yn ystyried cyfaint isafswm ar gyfer gwerthu coed gwlyb i ddeiliaid tai. Rydym yn cynnig gosod hyn ar 2m^3 , ond am ofyn eich barn ynghylch hyn. Nodwch pa isafswm y dylid ei bennu yn eich barn chi.

- a) Ni ddylid cael isafswm
- b) Dim cyfaint llai na 0.5m^3
- c) Dim cyfaint llai nag 1m^3
- d) Dim cyfaint llai na 2m^3
- e) Gwahardd gwerthu coed gwlyb yn llwyr

Sylwer: Mae bag rhwyd arferol o goed wedi'i brynu o siop DIY, garej neu siop arall fel arfer yn llai na 0.1m^3 .

9) Ydych chi'n meddwl y dylid trefnu cyfnod pontio er mwyn i gyflenwyr a manwerthwyr allu gwerthu eu stoc bresennol o goed gwlyb?

Sylwer: Byddai cyflenwyr a manwerthwyr yn cael cadw cyflenwadau o goed gwlyb i'w sychu, ond ni fyddent yn cael gwerthu'r coed hynny i ddefnyddwyr domestig pe bai'r cynnwys lleithedd yn uwch na 20%.

10) Os felly, beth fyddai hyd y cyfnod pontio?

- a) Blwyddyn
- b) 2 flynedd

11) Ydych chi'n cytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i gyflenwyr tanwydd coed fod yn aelodau o gynllun ardystio sy'n rhoi sicrwydd (drwy brofion ac archwiliadau) fod cynnwys lleithedd y coed yn 20% neu lai?

12) Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol yn gyfreithiol i fanwerthwyr sy'n gwerthu coed storio'r coed mewn modd a fydd yn sicrhau eu bod yn cyfateb â'r cynnwys lleithedd a nodwyd arnynt o leiaf?

13) Fel arall, a fydddech yn croesawu ymgyrch i roi canllawiau i fanwerthwyr ac aelwydydd ynghylch y dulliau gorau o storio coed gwlyb a sych, ac am ba mor hir i'w storio er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu sychu'n briodol?

14) Ydych chi'n teimlo y dylai Llywodraeth Cymru drin coed sydd wedi'u sychu mewn odyd yn wahanol i goed sydd wedi'u sychu'n naturiol, neu drin y ddau fath yn gyfartal?

15) A ddylai'r ymdriniaeth â gwerthiant coed gwlyb i eiddo domestig fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig i'r ymdriniaeth mewn ardaloedd trefol.

16) Os ydych chi'n gyflenwr/fanwerthwr, sut y byddai'r cynigion hyn yn effeithio ar eich busnes?

17) Pa gymorth a allai fod ei angen arnoch er mwyn gwneud yr addasiadau hyn.

- 18) Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ar yr adran hon, dylech eu nodi yma.
- 19) Ydych chi'n cytuno y dylem gyflwyno safon ar gyfer yr holl danwyddau solet mwynol a weithgynhyrchir sy'n cadarnhau bod eu cynnwys sylffwr yn is na 2% a'u bod yn bodloni terfyn allyriadau mwg o 5g/hr?
- 20) Er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gynnis i gymhwyso safonau allyriadau sylffwr a mwg i'r holl danwydd solet mwynol a weithgynhyrchir, sut y byddai angen i'ch busnes addasu, os o gwbl?
- 21) Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru geisio cefnogi'r SFR, neu geisio mabwysiadu cynllun tebyg, i'w gymhwyso yng Nghymru?
- 22) Ydych chi'n cytuno y dylid ehangu unrhyw gynllun cofrestru i Gymru ar gyfer tanwyddau solet bio-màs a weithgynhyrchir er mwyn cynnwys profi ac ardystio ar gyfer DG ac allyriadau eraill?
- 23) Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ar yr adrannau ar danwyddau a weithgynhyrchir, dylech eu nodi yma.
- 24) O dderbyn bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd gan weithwyr proffesiynol cymwys yn gwella effeithlonrwydd unrhyw offer, ydych chi'n cytuno y dylai technegydd â chymwysterau priodol (gosodwyr, peirianwyr gwasanaeth a glanhawyr simneiau) gael ei hyfforddi a'i ardystio er mwyn gallu rhoi canllawiau amgylcheddol a chondemnio offer peryglus?
- 25) Mewn rhanbarthau yn Ffrainc, mae'n rhaid i lanhawr simneiau cofrestredig a chymwysedig lanhau simneiau'n flynyddol. Os na wneir hynny ac y bydd y stof yn achosi tân, ni fydd yr yswiriant cartref yn ddilys. Ydych chi'n cytuno y dylid mabwysiadu'r dull hwn yng Nghymru?
- 26) A fydddech chi'n ystyried bod rhyw fath o gynllun sgrapio yn ddull priodol o annog pobl i osod offer newydd yn lle offer aneffeithlon sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?
- 27) A ddylid cyfyngu unrhyw gynllun sgrapio i aelwydydd lle bydd tanwyddau solet yn cael eu llosgi fel y brif ffynhonnell wresogi, neu a ddylid ehangu'r cynllun i annog pobl i ddefnyddio dulliau gwresogi di-garbon?
- 28) Er bod y gallu i bennu cyfraddau treth ar hyn o bryd y tu hwnt i gwmpas Llywodraeth Cymru, a fydddech yn cefnogi cynnis i archwilio cyfradd TAW is ar gyfer cynnal a chadw tanau a stofiau domestig er mwyn annog deiliaid tai i gynnal a chadw eu hoffer yn rheolaidd?

29)Ydych chi'n ffafrio unrhyw un o'r opsiynau a amlinellir uchod er mwyn helpu aelwydydd i newid.

- a) Opsiwn 1
- b) Opsiwn 2
- c) Opsiwn 3
- d) Yr un o'r opsiynau - rhowch resymau

30)Ydych chi'n cytuno y dylid ehangu SCAs er mwyn cael rheolaeth well ar allyriadau o losgi domestig?

31)Os felly, sut y dylid ehangu cwmpas yr ardaloedd hynny?

- a) Cymru Gyfan.
- b) Prif ganolfannau poblogaeth (Dinasoedd a threfi dros faint poblogaeth penodol).
- c) Dull arall o fesur ee, dwysedd tai, lefel amddifadedd, agosrwydd at dderbynyddion sensitif.

32)Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau sydd ar gael i reoleiddio'r mathau o offer a thanwyddau y ceir eu defnyddio mewn mannau awyr agored?

- a) Ydw
- b) Nac ydw

Ystyriaethau o ran y Gymraeg

33)Hoffem wybod eich barn ynghylch effeithiau lleihau allyriadau yn sgil llosgi domestig ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran yr angen i drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â Saesneg.

34)Beth fyddai'r effeithiau hyn yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

35)Esboniwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig mewn modd a fyddai'n cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg, ac na cheir unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg.

Crynodeb

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Defnyddiwch y gofod isod os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol:

Nodwch yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu rhannu â'r cyhoedd, naill ai ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych gadw eich ymateb yn ddiennw, ticiwch yma: